# Fframwaith sgiliau iaith Gymraeg

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

12 Mehefin 2019

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 17 Mai, pan wnaethoch ofyn:

*At sylw'r sawl a fynno wybod,*

*Rwy'n ysgrifennu o dan ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.*

*Roedd Adroddiad Ieithoedd Swyddogol Blynyddol Cynulliad Cymru am y cyfnod Ebrill 2017 - Mawrth 2018 yn cynnwys yr ymrwymiad canlynol ar dudalen 27 mewn perthynas â sgiliau iaith:*

*"Pan fydd y fframwaith sgiliau iaith Gymraeg newydd wedi cael ei rhoi ar waith, a'r cynlluniau iaith gwasanaeth wedi cael eu hadolygu, bydd angen cynnal arolwg sgiliau iaith ar draws y sefydliad. Yn ystod y flwyddyn i ddod, byddwn yn gofyn i staff y Comisiwn wneud hunan asesiad o'u sgiliau iaith Gymraeg, yn seiliedig ar y fframwaith newydd. Caiff canlyniadau'r hunan asesiad eu bwydo i mewn i'r system adnoddau dynol a chyflogres, ac mae'r gwaith paratoi ar gyfer ymgorffori'r wybodaeth yn y system eisoes yn digwydd. Bydd y gwaith hwn yn rhoi gwybodaeth ynghylch lefelau sgiliau iaith ar ffurf fesuradwy fydd yn golygu bod modd adrodd yn flynyddol ar y newid ac unrhyw gynnydd yn y lefelau sgiliau ar draws holl staff Comisiwn y Cynulliad. Bydd y broses hefyd yn ffordd o gydnabod cynnydd dysgwyr a dathlu llwyddiannau. "*

*A allwch ddarparu:*

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

*a) gohebiaeth rhwng y Comisiwn a'r staff yn gofyn iddynt gynnal hunanasesiad o'u sgiliau Cymraeg;*

*b) nifer a chanran staff y Comisiwn y mae'r Comisiwn wedi cofnodi eu gallu o ran sgiliau iaith.*

*c) o'r staff hynny y mae'r Comisiwn wedi cofnodi eu gallu o ran sgiliau iaith, dadansoddiad o nifer y staff sy'n adrodd sgiliau ym mhob cam o'r fframwaith sgiliau.*

*Diolch ymlaen llaw am eich cymorth.*

**Gweler isod yr ymateb i'ch cais:**

Nid yw Comisiwn y Cynulliad wedi gofyn am wybodaeth gan y staff hyd yn hyn.

Ar ôl cyflwyno'r fframwaith sgiliau iaith newydd y bu'n rhaid i'r staff gynnal hunanasesiad yn ei erbyn, daeth yn amlwg bod angen gwneud rhagor o waith i gynorthwyo staff gyda'u dealltwriaeth o ran sut i gofnodi'r wybodaeth sydd ei hangen yn gywir. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a gesglir mor gynhwysfawr a pherthnasol â phosibl. Oherwydd hyn, rydym wedi penderfynu gohirio'r archwiliad a'i gwblhau cyn mis Ebrill 2020.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu'r cyfeiriad post a ganlyn:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF